# Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

**SFM(3)-01-10 (p2): 9 Mawrth 2010**

### Cynllunio Wrth Gefn

### Cyflwyniad

1. Bwriedir i'r papur hwn fod yn dystiolaeth ysgrifenedig i hysbysu'r Pwyllgor Craffu ar waith y Prif Weinidog ar y mater cynllunio wrth gefn gan gyfeirio'n benodol at ffliw moch, prinder ynni posibl a chynllunio ar gyfer tywydd gwael.

### Ffliw Moch

2. Roedd Sefydliad Iechyd y Byd wedi rhybuddio gwledydd i baratoi ar gyfer pandemig newydd a dyna pam y bu Cymru a gweddill y DU yn cynllunio am gryn amser. Felly, roeddem yn disgwyl pandemig, ond roedd ychydig yn eironig o bosibl ei fod wedi dechrau dod i'r amlwg ddiwrnod ar ôl un o ymarferion brys diweddaraf Cymru i brofi cynlluniau ymateb i ffliw pandemig (Ymarfer Taliesin).

3. Mae tybiaethau cynllunio'r DU yn cynghori bod angen i gynlluniau allu ymdrin â'r sefyllfa waethaf y gellir ei rhagweld yn rhesymol o ran feirws pandemig newydd yn heintio hyd at 50% o'r boblogaeth gyda chanlyniadau difrifol i rai. Fodd bynnag, roedd feirws ffliw moch H1N1 yn llai difrifol. Ond o'r cychwyn cyntaf, ac am gryn amser wedi hynny, ni allai neb ragfynegi yn bendant sut y byddai'r pandemig hwn yn effeithio ar y wlad ac ymatebodd Cymru yn llawn ac yn effeithiol i sicrhau bod yr holl fesurau angenrheidiol wedi'u rhoi ar waith.

4. Adlewyrchodd yr ymateb ar lefel y DU yr angen i fod yn barod am y sefyllfa waethaf a rhoddwyd systemau argyfyngau sifil llywodraeth ganolog ar waith. Mewn gwirionedd, ni chyrhaeddodd y feirws y lefelau heintio sy'n bosibl pan fydd unrhyw feirws newydd yn dod i'r amlwg a lleihawyd lefel yr ymateb wrth i ragor o wybodaeth ddod i'r amlwg. Er hyn, bu farw 28 o bobl yng Nghymru a oedd â'r feirws ac mae llawer mwy wedi cael eu derbyn i'r ysbyty.

### Ymateb yng Nghymru

5. Cafodd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i ffliw moch ei arwain ar lefel weinidogol gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cafodd y Gweinidog gefnogaeth ar lefel swyddogol gan y Grwp Argyfyngau Sifil trawsadrannol a sefydlwyd yng Nghanolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) yn ogystal â chefnogaeth gan y Tîm Cydnerthu sy'n cynnwys Cangen Argyfyngau a gwirfoddolwyr hyfforddedig ar draws adrannau Llywodraeth y Cynulliad. Ychwanegwyd at y Grwp Argyfyngau Sifil yn sgîl cynnwys asiantaethau partner fel Iechyd Cyhoeddus Cymru (y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol gynt), yr Heddlu a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ymgysylltodd y Grwp Argyfyngau Sifil yn agos hefyd ag asiantaethau partner drwy'r Grwpiau Cydgysylltu Strategol amlasiantaeth a sefydlwyd ym mhob un o ardaloedd yr heddlu. Ategwyd yr ymgyrch gan Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) a barhaodd yn weithredol rhwng 24$^{ain}$ Ebrill 2009 a 29$^{ain}$ Ionawr 2010. Mae'r ymateb yn parhau yn bennaf drwy Gyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n gweithredu ar y rhaglen frechu.

6. Roedd ymgysylltu'n agos â Whitehall a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill yn nodwedd allweddol o'r ymateb. Hwyluswyd hyn gan Ysgrifenyddiaeth Argyfyngau Sifil Swyddfa'r Cabinet gan ddefnyddio systemau ymateb Ystafell Friffio Swyddfa'r Cabinet a chan gyflwyno pwyllgor iechyd 'pedair gwlad' hefyd ar lefel weinidogol ac ar lefel swyddogol i ystyried polisi iechyd a chytuno arno. Bu Prif Swyddogion Meddygol y DU mewn cysylltiad rheolaidd gan gysylltu â phwyllgorau cynghori gwyddonol y DU, felly hefyd Iechyd Cyhoeddus Cymru â'r Asiantaeth Diogelu Iechyd.

7. Roedd hwn yn argyfwng a arweiniwyd gan y maes Iechyd ac, o'r cychwyn cyntaf, sefydlwyd Tîm Ymateb Brys ym maes Iechyd yng Nghanolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) i fod yn gysylltiad uniongyrchol â'r GIG, Adrannau Iechyd eraill yn y DU ac ymateb corfforaethol y Cynulliad. Ymatebodd cynrychiolwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ar unwaith fel rhan o'r Tîm ac wrth i'r ymateb ddatblygu ymunodd cynrychiolwyr eraill o'r GIG â hwy.

8. Ymatebodd meysydd iechyd a gofal cymdeithasol i her ffliw moch gan addasu cynlluniau i ystyried gwybodaeth a gasglwyd am natur y feirws, ei effaith debygol ar y boblogaeth ac ar wasanaethau, ac argaeledd gwrthfesurau iechyd a'r brechlyn H1N1. Yng Nghymru, ystyriodd y GIG a sefydliadau gofal cymdeithasol eu cynlluniau wrth gefn a'u datblygu a rhoddwyd trefniadau ar waith i gydgysylltu'r gwasanaethau hyn ledled Cymru.

9. Trefnwyd cyfarfodydd rheolaidd hefyd rhwng swyddogion iechyd y Cynulliad a chynrychiolwyr arweiniol o Fyrddau Iechyd, y Gwasanaeth Ambiwlans ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i helpu i reoli a chydgysylltu'r ymateb ar draws y GIG. Cyhoeddwyd diweddariadau iechyd dyddiol ac wythnosol a chyflwynwyd Bwletin wythnosol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol Proffesiynol. Daeth ymgysylltu uniongyrchol rhwng gweinidogion ac arweinwyr gofal sylfaenol a gweithwyr iechyd proffesiynol yn nodwedd bwysig o'r ymateb iechyd.

10. Cafodd yr ACau eu briffio'n rheolaidd gan y Prif Swyddog Meddygol ar y sefyllfa a oedd ar droed a gweithiodd staff cyfathrebu iechyd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod y cyfryngau yn cael eu hysbysu'n rheolaidd. Datblygwyd "Dangosfwrdd Ffliw Pandemig" a thudalen wybodaeth am Wasanaeth Gwybodaeth Iechyd Cymru a unodd wybodaeth, canllawiau ac adroddiadau dyddiol ar y sefyllfa. Bu cyfarfodydd rheolaidd ag arweinwyr y GIG yn fodd i reoli a chydgysylltu'r ymateb ym mhob rhan o'r GIG.

11. Y penderfyniadau allweddol a wnaed ar ddechrau'r ymateb oedd archebu brechlyn a all gymryd chwe mis i gyrraedd y farchnad a chasglu ynghyd fwy o gyffuriau gwrthfeirysol a chyffuriau a chynhyrchion hanfodol eraill fel mygydau wyneb a sicrhau llwybr carlam ar eu cyfer. Ym mis Hydref, lansiwyd Cam 1 o Raglen Frechu H1N1/Ffliw Moch, gan dargedu cleifion mewn grwpiau â blaenoriaeth a

nodwyd fel merched beichiog yn ogystal â staff iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen. Ers hynny, estynnwyd y rhaglen frechu i gynnwys plant rhwng chwe mis a 5 mlwydd oed.

12. Mae trefniadau Cymru yn cynnwys ymagwedd wedi'i thargedu at driniaeth drwy wasanaethau meddygon teulu gan sicrhau bod cleifion mewn grwpiau risg uchel sydd â diagnosis clinigol o salwch sy'n debyg i ffliw yn gallu cael gafael ar gyffuriau gwrthfeirysol drwy fferyllfeydd cymunedol, gan sefydlu a rheoli'r gwaith o storio a dosbarthu gwrthfesurau iechyd, yn cynnwys gallu ac adnoddau ym maes gofal eilaidd, yn arbennig gofal critigol a rhoi'r rhaglen frechu ar waith ar gyfer ffliw moch. Bu'r holl fesurau hyn yn llwyddiannus ac maent yn darparu sylfaen gynllunio gadarn ar gyfer y dyfodol.

13. Ni allem ychwaith fod yn sicr am gryn amser a fyddai'r feirws ffliw moch penodol hwn yn arwain at unrhyw beth fel y sefyllfa waethaf a ragwelwyd yn nhybiaeth cynllunio ar gyfer pandemig y DU sef y câi 50% o'r boblogaeth ei heintio. O ganlyniad, parhawyd i ddatblygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer defnyddio'r Gwasanaeth Ffliw Pandemig Cenedlaethol a chyflwyno mannau casglu cyffuriau gwrthfeirysol ond nid oedd angen y mesurau wrth gefn hyn.

14. Roedd y mentrau a'r penderfyniadau polisi allweddol a wnaed yn ystod yr ymateb yn cynnwys mabwysiadu polisi i agor ac ailagor ysgolion yn unol â chyngor lleol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, a datblygu rhwydweithiau i hyrwyddo cymunedau cydnerth i ategu a chefnogi ymateb y gwasanaethau cyhoeddus.

### Proses Adolygu

15. Drwy gydol y pandemig hwn, gwnaethom adolygu ein hymateb yn barhaus i sicrhau ei fod yn briodol i'r sefyllfa a wynebwyd gennym. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd o ran y Grwp Argyfyngau Sifil a rhwng swyddogion y Cynulliad a'r Grwpiau Cydgysylltu Strategol. Ym mis Tachwedd, cynhaliwyd gweithdy a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Fforymau Lleol Cymru Gydnerth ac asiantaethau unigol i drafod Ymarfer Taliesin a'r ymateb gwirioneddol tan y dyddiad hwnnw i ffliw moch yng Nghymru. Ym mis Ionawr, cynhaliwyd ymarfer tebyg gan y sector iechyd.

16. Cytunwyd y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydgysylltu ymarfer ar ffliw moch ledled Cymru ar sail gwersi a ddysgwyd. Diben yr ymarfer hwn fydd canfod y gwersi strategol a nodwyd o'r prosesau trafod amrywiol sy'n mynd rhagddynt. Cyflwynir adroddiad ar y canfyddiadau hyn i Fforwm Cymru Gydnerth ei ystyried a'i rannu gyda'r Fforymau Lleol Cymru Gydnerth.

### Tywydd Gwael

### Gwaith Cynnal a Chadw/Halen yn ystod y Gaeaf

17.Y gaeaf hwn, mae Cymru wedi profi'r cyfnod hiraf o dywydd oer ers 30 o flynyddoedd. Arweiniodd hyn at yr eira mawr a gwympodd ym mis Ionawr ledled De Cymru a'r Gorllewin gan effeithio ar bob cwr o'r wlad mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

18.Effeithiodd y tywydd oer yn bennaf ar y seilwaith trafnidiaeth a lleihaodd yr amodau gaeafol hirfaith y storfeydd halen. Golygai hyn fod y galw am halen yn fwy na'r hyn y gallai cwmnïau cynhyrchu halen ei gyflenwi. Profwyd yr amgylchiadau eithriadol hyn er gwaethaf y camau a gymerwyd y llynedd gan lywodraeth leol i gynyddu'r storfeydd halen.

19.Er y sicrhawyd bod y cefnffyrdd yn glir, wynebai'r awdurdodau lleol bwysau cynyddol ar y storfeydd halen a oedd ganddynt i gynnal a chadw ffyrdd lleol. Cyfrifoldeb pob awdurdod lleol yw penderfynu faint o halen i'w archebu wrth i'r gaeaf ddynesu a threfnu cyflenwadau fel y bo'n ofynnol. Cyfrifoldeb yr awdurdodau hefyd yw pennu blaenoriaethau ar gyfer graeanu yn ei ardal. Fodd bynnag, pan fo'r galw am halen yn genedlaethol yn fwy na'r cyflenwad sydd ar gael - fel y sefyllfa y gaeaf hwn - daw'n fater strategol. Gweithiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i ddarparu halen i awdurdodau a oedd â'r angen mwyaf yng Nghymru. Gofynnwyd i awdurdodau lleol leihau'r defnydd o halen 50% ac i sicrhau bod y stoc bresennol yn para cyhyd â phosibl. Sicrhawyd y cymorth cydfuddiannol mwyaf posibl rhwng awdurdodau lleol i sicrhau y câi storfeydd eu rhannu ar draws ardaloedd ac anogodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru awdurdodau i rannu cymaint ag y gallent. At hynny, rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei chyflenwadau ei hun o halen i awdurdodau lleol.

20.Er bod awdurdodau lleol wedi cronni eu storfeydd o halen parodd yr ysbeidiau o dywydd oer broblem fawr. O ganlyniad, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ystyried opsiynau gwahanol i atgyfnerthu cyflenwadau halen cyn y gaeaf nesaf.

21.Yn ystod y tywydd gwaethaf, gwnaeth yr Adran Drafnidiaeth gynnull "Salt Cell" i gydgysylltu'r gwaith o gyflenwi halen ledled y DU i awdurdodau lleol ar sail blaenoriaeth. Roedd y Dirprwy Brif Weinidog yn ymwneud â thrafodaethau lefel uchel â Phrif Weinidog y DU a'r Arglwydd Adonis a sicrhaodd fod Cymru yn cael ei chyfran deg o gyflenwad cyfyngedig o halen drwy'r "Salt Cell". Yn ogystal â hyn, chwaraeodd y gydberthynas waith dda sydd gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad â'r cyflenwyr halen ran bwysig yn y gwaith o sicrhau cyflenwadau ychwanegol a sicrhaodd cydweithio agos â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod cyflenwadau yn cyrraedd yr ardaloedd â'r angen mwyaf.

22.Drwy gydol y cyfnod o dywydd difrifol, parhaodd GIG Cymru i gynnal a chadw gwasanaethau hanfodol. Roedd pwysau sylweddol ar yr Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, ac ar nifer y gwelyau meddygol wrth i effaith cam hirfaith o dywydd oer iawn gynyddu nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty a oedd yn dioddef trawma, cyflyrau'r galon, cyflyrau anadlu a strôc. Roedd cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o Ddolur Rhydd a Chwydu ledled Cymru hefyd. Effeithiwyd ar lawdriniaethau dewisol (a gynlluniwyd) i ddarparu ar gyfer achosion ychwanegol o drawma ac i ddarparu adnoddau hyblyg ar gyfer cleifion meddygol.

23.Mae gwasanaethau iechyd yn dibynnu ar gadw prif lwybrau'n glir er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau ac er

mwyn cynnal cyflenwadau hollbwysig, fel deunydd fferyllol a gwaed. Ystyriwyd bod ffyrdd sy'n arwain at ysbytai, meddygfeydd a lleoliadau gofal preswyl yn flaenoriaeth at ddibenion graeanu.

24.Cafodd asiantaethau eraill eu cefnogi gan yr Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub, fel y bo'n ofynnol. Cyfyngwyd ar allu ambiwlansys i symud mewn mannau ond bu'r gwasanaethau brys a gwirfoddol o gymorth drwy ddefnyddio cerbydau i4x4.

25.Parodd y tywydd rai problemau i gwmnïau dwr, gan wneud mynediad i safleoedd yn anodd ar gyfer gweithrediadau arferol, cyflenwi cemegion i waith trin a thrwsio offer a oedd wedi rhewi a phrif bibellau a oedd wedi torri. Fodd bynnag, ni chododd unrhyw broblemau sylweddol.

26.Roedd hon yn adeg arbennig o anodd i bobl hyn ac roedd pwysau ar wasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu i'r rheini a oedd yn agored i niwed. Parodd yr amodau anawsterau o ran trafnidiaeth i wasanaethau pryd ar glud a gofal cartref ond parhaodd y gwasanaethau hyn i gael eu cynnal.

27.Anogwyd penaethiaid a llywodraethwyr ysgolion i gadw ysgolion ar agor, i'r graddau y bo'n bosibl, ond gwnaethant benderfyniadau doeth yn seiliedig ar amgylchiadau lleol. Rhoddodd awdurdodau lleol drefniadau ar waith i sicrhau bod arholiadau yn mynd rhagddynt yn ôl y bwriad.

### Llifogydd

28.Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio Grwp Llifogydd Cymru fel canolbwynt ar gyfer cynllunio wrth gefn o ran llifogydd. Mae Grwp Llifogydd Cymru yn un o is-grwpiau Fforwm Cymru Gydnerth ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r asiantaethau allweddol sy'n ymwneud â rhybudd rhag llifogydd, ymateb cynllunio a gweithgareddau adfer ledled Cymru. Un o rolau allweddol y grwp yw cefnogi, monitro a chyfleu gweithgareddau cynllunio at argyfwng ac arfer gorau i'r gymuned gydnerth ledled Cymru.

29.Gwnaeth Adolygiad Pitt argymhellion eang eu cwmpas i wella'r ffordd y byddwn yn cynllunio ein hymateb i lifogydd. Mae Grwp Llifogydd Cymru yn datblygu'r gwaith hwn mewn rhaglen waith sydd â'r nod o sicrhau bod cynlluniau priodol ar waith ar bob lefel o'r llywodraeth i sicrhau bod ymateb cydlynol a chyson i lifogydd ledled Cymru.

30.Mae hyn yn cynnwys datblygu Fframwaith Ymateb i Lifogydd Cymru a fydd yn nodi'r strwythurau a'r trefniadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol presennol i ymdrin ag achosion o lifogydd. Roedd sicrhau ymateb gosodedig yn un o negeseuon allweddol Adolygiad Pitt a bydd y Fframwaith yn sicrhau bod ein hymateb i achosion o lifogydd yn gydgysylltiedig. Bwriedir profi'r Fframwaith yn Ymarfer Watermark ym mis Mawrth 2011.

### Cynllunio ar gyfer tywydd poeth

31.Mae Cynllun Tywydd Poeth i Gymru yn darparu canllawiau i lywio parodrwydd ac ymateb amlasiantaeth mewn tywydd poeth. Yn gryno, nod y cynllun yw rhybuddio asiantaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac asiantaethau gofal eraill ac aelodau'r cyhoedd rhag peryglon gwres eithafol, ac mae'n darparu fframwaith i arwain a chefnogi camau cydweithredol cydgysylltiedig yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol mewn ymateb i wres eithafol ac amodau tywydd poeth yng Nghymru. Caiff y Cynllun ei ddiwygio, fel y bo angen, a'i ailgyflwyno bob blwyddyn i gyd-fynd â system rybuddio "Heat Health Watch" y Swyddfa Dywydd sy'n gweithredu rhwng 1 Mehefin a 15 Medi bob blwyddyn.

32.Mae sicrhau bod cynlluniau effeithiol ar waith i ymateb i dywydd poeth yn rhan hollbwysig o drefniadau cynllunio at argyfwng, yn gyffredinol, a bydd yn fwyfwy perthnasol fel ymateb i effaith newid yn yr hinsawdd. Mae system gadarn ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd tywydd poeth posibl yng Nghymru yn bwysig o gofio'r rhagfynegiadau y bydd hafau yn y dyfodol yn mynd yn boethach. Mae'r Gweinidog Iechyd wedi ysgrifennu at Gadeiryddion Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol yn nodi ei disgwyliadau y dylai Cyrff y GIG, Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol ac asiantaethau rhanddeiliaid eraill yng Nghymru gynnwys y canllawiau yn eu cynlluniau eu hunain, gan nodi'n glir y paratoadau penodol y dylent eu gwneud a'r camau gweithredu penodol y dylent eu cymryd mewn tywydd poeth neu amodau o wres eithafol. Dylai'r cynlluniau hynny nodi unigolion priodol i gysylltu â hwy mewn argyfwng.

### Prinder Ynni

### Cefndir

### Cyflenwadau ynni a Seilwaith yng Nghymru

33. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod yn rhaid i ni ddiogelu ein cyflenwad ynni drwy sicrhau amrywiaeth o ffynonellau nwy - fel y terfynfeydd nwy naturiol hylifol newydd yn Aberdaugleddau a chymysgedd o danwyddau drwy sbarduno pobl i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a thechnoleg glo glân.

34.Mae Cymru yn allforiwr trydan ac ynni net. Mae'r rhan fwyaf o'r gallu i gynhyrchu trydan yng Ngogledd Cymru tra bo De Cymru yn fewnforiwr trydan net. Yn 2009, roedd cyfanswm y trydan a gynhyrchwyd yng Nghymru bron yn 36 awr Terra wat ac roedd cyfanswm y trydan a ddefnyddiwyd tua 24 awr Terra wat.

### Ymateb wrth gefn o ran ynni strategol

35.Yn y DU, mae achosion mawr o drydan yn methu yn brin iawn, mae methiannau fel arfer yn effeithio ar niferoedd bach o ddefnyddwyr o ganlyniad i doriadau mecanyddol penodol, prin yn aml, a chânt eu hadfer cyn gynted â phosibl gan Weithredwyr

Rhwydwaith Dosbarthu a'u hasiantau.

36.Mewn sefyllfaoedd eithriadol, gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd ddefnyddio pwerau yn Neddf Ynni 1976 a all gyfyngu ar y gwaith o gynhyrchu a chyflenwi ynni, gwahardd y gwaith hwnnw neu fynnu'r cyflenwad mwyaf posibl. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bwerau o dan Ddeddf Trydan 1989 hefyd, i gyfarwyddo gorsafoedd ynni i gymryd camau gweithredu penodol fel defnyddio a chadw tanwyddau.

37.Mae'r Cynllun Argyfyngau Cenedlaethol - Nwy a Thrydan yn disgrifio'r trefniadau a roddwyd ar waith rhwng y diwydiant nwy a thrydan a'r adran arweiniol o'r llywodraeth, sef yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd i reoli, mewn modd diogel ac effeithiol, argyfyngau yn ymwneud â chyflenwi nwy a thrydan.

38.Mae'r Cynllun Argyfyngau Cenedlaethol yn gymwys i'r rhwydwaith cyflenwi trydan o'r generadur i fesurydd y defnyddiwr neu i'r derfynell gyflenwi ym Mhrydain Fawr; a'r rhwydwaith cyflenwi nwy agosach at y pwynt gwerthu o'r derfynell dderbyn a'r safle storio i falf ynysu'r defnyddiwr ym Mhrydain Fawr. Cwmpesir y trefniadau brys ar gyfer y diwydiant cyflenwi nwy yn agosach at y pwynt cynhyrchu o'r llwyfan cynhyrchu i'r derfynell dderbyn yn y Cynllun Rheoli Argyfyngau yn Agosach at y Pwynt Cynhyrchu ar gyfer y diwydiannau olew a nwy.

39.Mae'r Pwyllgor Argyfyngau Sifil yn gyfrifol am reoli'r ymateb trawslywodraethol i argyfwng ynni ac mae fel arfer wedi'i leoli yn Ystafell Friffio Swyddfa'r Cabinet. Caiff y rhyngwyneb rhwng y diwydiannau nwy a thrydan a llywodraeth ganolog ei reoli drwy'r Tîm Ymateb ar y Cyd a gaiff ei gadeirio a'i hwyluso gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Bydd y Grid Cenedlaethol a Rhwydweithiau Dosbarthu Nwy/Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu Trydan hefyd yn rhyngwynebu'n uniongyrchol â thimau 'Rheoli Aur' Cydnerthu Lleol neu Ranbarthol fel arfer drwy is-grwp cyfleustodau, ar gyfer rheoli canlyniadau.

### Ymateb parhad ynni yng Nghymru

40.Roedd cyflenwadau nwy a thrydan Cymru yn gadarn yn ystod y cyfnod diweddar o dywydd gwael i lefelau a oedd yn debyg i aeaf arferol. Cyhoeddwyd rhybuddion cydbwyso nwy ar gyfer busnes ar "gontractau toradwy" fel mesur rhagofalus i sicrhau cyflenwad cadarnach pe bai argyfwng pellach yn gwaethygu effaith y tywydd gwael ar alw.

41.Yn achos argyfwng mawr o ran cyflenwad nwy neu drydan, mae cwmnïau nwy a thrydan yn gyfrifol am reoli'r digwyddiad yn ymarferol ac yn weithredol er mwyn sicrhau bod y sefyllfa dan reolaeth, ei bod wedi'i rheoli'n ddiogel a'i hadfer yn effeithiol.

42.Mae gan ddosbarthwyr ynni sydd â buddiannau yng Nghymru, fel Wales and West Utilities a Western Power Distribution gynlluniau a gweithdrefnau parhad ar waith i gyflawni hyn, a all amrywio o reoli diffyg cyflenwad cymedrol i adfer gorsaf ynni heb ddefnyddio adnoddau allanol neu reoli colled fawr o ran cyflenwadau nwy gan effeithio ar ddefnyddwyr domestig.

43.Mae cwmnïau dosbarthu ynni yng Nghymru hefyd yn monitro patrymau tywydd yn ddyddiol, ac mae ganddynt gontractau gyda'r Swyddfa Dywydd i roi cyngor ar ragolygon tywydd manwl bob dydd.

44.Mae'r cynlluniau parhad manwl yn cynnwys trefniadau ar gyfer ymateb i dywydd gwael iawn lle y gallai'r tywydd beryglu mynediad i safleoedd yr effeithiwyd arnynt a'r adnoddau dynol sydd ar gael. Mae'r cynlluniau'n cynnwys trefniadau i ddefnyddio staff a chontractwyr o ardaloedd eraill, defnyddio cerbydau pob tir a dulliau trafnidiaeth eraill fel hofrenyddion, mewn tywydd gwael iawn.

45.Mae cwmnïau dosbarthu hefyd yn cynnal lefelau sylweddol o fuddsoddiad mewn seilwaith i leihau'r posibilrwydd y bydd system yn torri mewn amodau eithafol. Mae cynnal cyflenwadau yn hollbwysig a cheir rhaglen dreigl i adnewyddu cylchedau, gosod asedau newydd, torri coed, cysylltiadau newydd ac atgyfnerthu.

46.Bydd swyddogion ynni Llywodraeth y Cynulliad yn cwrdd yn rheolaidd â chwmnïau ynni sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn ogystal â'u swyddogion cyfatebol yn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, y Grid Cenedlaethol a Centrica i drafod trefniadau brys.